# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Deintyddfa Paul James/Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi: 28 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78859-360-1



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................. 6

3. Yr hyn a ganfuom............................................................................................ 8

   Ansawdd profiad y claf .......................................................................................9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ....................................................................13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth............................................................19

4. Beth sydd nesaf? ........................................................................................... 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol...................................................... 22

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad..........23

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............................................................24

   Atodiad C – Cynllun gwella...............................................................................25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Paul James, 18 Stryd Morgan, Pontypridd, CF37 2DS, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 27 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, ac roedd cynlluniau ar waith i ddatblygu ystafell ddadheintio ar wahân.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf, ac yn cynnig cyfleoedd i gleifion roi adborth ac ymgymryd ag arolygon.

Gwelsom amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi eu darllen ac yn deall eu cyfrifoldebau.

Canfuom ambell faes i'w wella er mwyn i'r practis ddiwallu'r safonau a rheoliadau perthnasol. Gwnaethom argymell bod mwy o fanylion yn cael eu cofnodi mewn cofnodion cleifion, yn arbennig o ran hanes cymdeithasol a sgrinio ar gyfer canser. Mae angen i gynllun ardal reoledig y ddeintyddfa gael ei arddangos yn yr ystafell driniaeth er mwyn i staff wybod lle mae’r mannau diogel pan fo pelydrau-X yn cael eu cymryd.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Canfuom fod hwn yn bractis sy'n canolbwyntio ar gleifion ac roedd rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn gyfeillgar ond yn gwrtais.
- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch, a darperir gwasanaeth deintyddol da ar eu cyfer.
- Roedd y practis a'r cyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus.
- Gwnaethom nodi bod yr holl staff wedi arwyddo polisïau a gweithdrefnau'r practis i ddangos eu bod wedi'u darllen a’u deall.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Roedd angen i bolisïau a gweithdrefnau'r practis gynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu.

- Roedd angen cynnwys mwy o fanylion o fewn nodiadau'r cleifion ynghylch hanes cymdeithasol a sgrinio ar gyfer canser.
- Mae angen i'r diagram o'r man rheoledig gael ei arddangos yn y ddeintyddfa i hysbysu'r staff ynglŷn â'r mannau lle na ddylent fynd pan fo'r peiriant pelydr-X yn cael ei ddefnyddio.
- Mae angen cyflwyno cyfleusterau ar gyfer gwaredu ar wastraff hylendid benywaidd mewn ffordd hylan.
- Mae angen i'r holl staff clinigol sicrhau bod eu pigiadau atgyfnerthol ar gyfer Hepatitis B yn gyfredol (lle bo'n berthnasol) a bod hyn yn cael ei gofnodi'n gywir o fewn cofnodion y practis.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Paul James yn darparu gwasanaethau i gleifion o fewn ardal Pontypridd. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae’r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys un deintydd (sef y perchennog), dwy nyrs ddeintyddol (y mae un ohonynt yn darparu cymorth gweinyddol ac yn y dderbynfa), ac un derbynnydd.

Mae’r practis yn darparu arlwy o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle y bo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion. Mae'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, ac maent yn adnabod anghenion eu cleifion yn dda iawn. Cadarnhaodd yr adborth a dderbyniwyd gennym fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael safbwyntiau ynghylch y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 37 holiadur. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Yn fy marn i, does dim angen gwella. Hapus iawn gyda'r gwasanaeth"*
>
> "Maent yn gwneud gwaith gwych eisoes. Rwy'n ffodus o gael deintydd y GIG. Tîm gwych"
>
> *"Rydw i'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth; mae'r holl staff deintyddol yn gynorthwyol a chroesawgar"*

### Cadw'n iach

Roedd amrywiaeth o daflenni hybu iechyd ar gael yn y man aros, gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn Saesneg yn unig. Roedd hefyd poster a oedd yn annog pobl i roi'r gorau i ysmygu. Roedd arwyddion "dim ysmygu" wrth y fynedfa i'r practis hefyd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

### Gofal ag urddas

Mae'r tîm deintyddol wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer yn y practis hwn ac maent wedi magu cydberthnasau da gyda'i gilydd a chyda'u cleifion. Roedd hyn yn amlwg oherwydd y ffordd gwrtais a chyfeillgar yr oeddent yn ymdrin â'u cleifion.

Gwnaeth pob claf a gwblhaodd holiadur gadarnhau ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch wrth ymweld â'r practis.

Er na allai'r staff gofio adeg lle roedd angen i glaf siarad â hwy yn gyfrinachol, dywedwyd wrthym pe bai hynny'n digwydd, byddent yn ei gyfeirio at un o'r ystafelloedd i fyny'r grisiau nad oedd yn cael eu defnyddio.

Er nad oedd man parcio neilltuedig ar gyfer cleifion, roedd lle i barcio ar y stryd a maes parcio aml-lawr yn union gyferbyn â'r practis. Darperir gwasanaethau ar y llawr daear ac maent yn hygyrch i'r cleifion hynny ag anableddau. Roedd tŷ bach ar y llawr daear, ond efallai na fyddai'n hygyrch i'r cleifion hynny sy'n defnyddio cadair olwyn.

### Gwybodaeth cleifion

Roedd rhai taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael a phosteri yn cael eu harddangos yn y man aros. Roedd gwybodaeth hefyd ar bwys desg y dderbynfa ynglŷn â chostau am driniaethau deintyddol preifat. Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth preifat a thriniaeth y GIG ac roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt yr holl asiantaethau perthnasol.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys y dewisiadau o ran triniaethau a'r costau cysylltiedig. Dywedasant eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wneir o ran eu triniaeth a bod y gost am unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn iddynt ei derbyn. Fodd bynnag, dywedodd bron i un o bob tair o gleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa allanol yr adeilad. Roedd enw a chymwysterau'r deintydd hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Dywedodd nifer fach o'r cleifion a

gwblhaodd holiadur eu bod yn ystyried eu bod yn siaradwyr Cymraeg, ond gwnaethant ddweud nad oedd byth modd iddynt siarad yn Gymraeg â'r staff yn y practis. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

## Gofal amserol

Roedd y practis yn gwneud ymdrechion i ddarparu gwasanaethau i gleifion mewn modd amserol.  Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu rhybuddio ar lafar pe bai unrhyw oedi o ran amseroedd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt. Roedd oriau agor a rhif ffôn y practis ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau yn cael eu harddangos ar ddrws ffrynt y practis.  Yn ogystal, mae neges peiriant ateb sy'n cyhoeddi manylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

O blith y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC, dywedodd y rhan fwyaf fod y tîm deintyddol yn rhoi cyngor o ran sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwnaeth y rhan fwyaf gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wneir o ran eu triniaeth a'u bod yn derbyn cyngor ac yn deall yr holl ddewisiadau triniaeth sydd ar gael pan fo angen triniaeth.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith.  Roedd un ystafell driniaeth ar y llawr daear a oedd yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symud.

Roedd man aros a derbynfa cynllun agored gan y practis, a oedd hefyd yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symud. Roedd system dolen sain wrth ddesg y dderbynfa i gynorthwyo cleifion ag anawsterau clywed.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Roedd y dogfennau yn rhestru'r weithdrefn y gallai fod angen i glaf ei dilyn yn glir, gan gynnwys manylion cyrff eraill a allai fod yn ddefnyddiol wrth wneud cwyn ffurfiol.

Dywedodd tua hanner o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Er bod cofnod cwynion yn cael ei gadw wrth ddesg y dderbynfa i gofnodi cwynion ar lafar ac anffurfiol, dywedodd y staff wrthym nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion dros y pump i chwech blynedd ddiwethaf. Nid oedd y practis yn cofnodi unrhyw ganmoliaethau / adborth cadarnhaol, a gwnaethom argymell y dylent gofnodi'r rhain. Gall unrhyw adborth y mae'r practis yn ei dderbyn gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chanlyniadau ei arolwg cleifion er mwyn cynnig darlun ehangach o'r gwasanaethau y mae cleifion yn eu hoffi neu y gallent awgrymu bod angen eu gwella.

Yn y dderbynfa, roedd blwch awgrymiadau gyda darnau o bapur i gleifion ychwanegu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau. Dywedwyd wrthym ar adeg ein hymweliad bod pen ar gael i alluogi'r cleifion i wneud eu sylwadau yn ddienw. Roedd y practis hefyd wedi cynnal dau arolwg cleifion yn y blynyddoedd diweddar, gan geisio adborth gan gleifion o ran y gwasanaethau a ddarperir. Gwnaeth ein hadolygiad o'r arolygon hyn dynnu sylw at adborth cadarnhaol ac roeddent yn cynnig ffordd i'r practis adolygu ei wasanaethau yn barhaus. Fodd bynnag, dywedodd yr holiaduron cleifion wrthym nad oedd dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ymwybodol o gael eu holi ynglŷn â'u barn ar y practis deintyddol – trwy holiaduron i gleifion, er enghraifft. Efallai y byddai'r practis am hyrwyddo'r ffaith bod blwch awgrymiadau ar gael i gleifion.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem hefyd yn fodlon bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Gwnaethom argymell bod mwy o fanylion yn cael eu cofnodi ar nodiadau'r cleifion, yn arbennig wrth gofnodi sgrinio ar gyfer canser a hanes cymdeithasol.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd trefniadau ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Roedd adeilad y practis yn cynnwys cyfleusterau i gleifion a mannau triniaeth ar y llawr daear. Roedd yn amlwg fod yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu

mewn a'r tu allan ac roedd yr holl fannau o fewn y practis yn lân ac yn daclus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur, ac eithrio un ohonynt, yn teimlo, yn eu barn nhw, bod y practis deintyddol yn lân iawn. Roedd y toiled i gleifion yn hygyrch iawn ac yn cynnwys un rheilen llaw i gynnig ychydig o gymorth i gleifion gydag anawsterau symudedd. Efallai yr hoffai'r practis ystyried gosod cymhorthion/rheiliau ychwanegol, gan ystyried ei grŵp cleifion.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd unrhyw gyfleusterau i gael gwared ar gynhyrchion hylendid benywaidd. Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu ei reoliadau presennol o ran y ddarpariaeth hon a chynnig y cyfleusterau gofynnol.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cyflwyno cyfleusterau ar gyfer gwaredu ar wastraff hylendid benywaidd mewn ffordd hylan.

### Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Yn dilyn ein harsylwadau ar y broses hon, daethom i'r casgliad bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer dadheintio offer. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd cyfarpar diogelu personol, megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Roedd offer yn cael eu storio'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1] Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn ymdrin â chynnwys cynhwysfawr. Er gwaethaf y ffaith bod yr archwiliad yn cael ei gadw mewn ffolder a oedd yn nodi'r dyddiad, gwnaethom awgrymu y dylid nodi'r dyddiad ar yr archwiliad ei hun er mwyn nodi'r amser y mae'r archwiliad yn cyfeirio ato'n glir.

Ar adeg ein hymweliad, roedd dadheintio yn cael ei weithredu yn yr ystafell driniaeth. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i ddatblygu ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol, a gwnaethom gytuno y byddai hyn yn fuddiol i'r practis ac yn bodloni'r gofynion arfer gorau fel y nodir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr log ar waith ar gyfer pob peiriant awtoclaf a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod dyddiad gwirioneddol yr archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael ei nodi i ddangos pryd y cafodd ei gynnal.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion) ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd polisi dadebru ar waith.

Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig ac roedd enw'r swyddog yn hysbys. Gan fod yr aelod hwnnw o'r staff yn rhan amser,

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried cyflogi aelod staff arall sydd wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus.

Gwelwyd bod y cyffuriau brys a gedwir yn y practis yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff fynegi unrhyw bryderon o ran darparu gwasanaethau i gleifion. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedodd y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith gan y deintydd, ond oherwydd natur yr aelodau staff a oedd wedi bod yn gweithio yno am flynyddoedd lawer, nid oedd tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer y staff eraill.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y practis offer pelydr-X digidol newydd, a gwelsom fod y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos pryd y byddai'r peiriannau pelydr-X newydd yn cael eu gwasanaethu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod y deintydd sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[2] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwnaethom nodi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn ac yn gyfredol, yn unol â'r gofyn.

---

[2] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael ei raddio a'i gofnodi. Byddai hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod sganiau pelydr-X da a chlir yn cefnogi penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth cleifion.

Yn ystod yr ymweliad, nid oedd unrhyw luniad o'r man a reolir[3] yn cael ei arddangos yn y ddeintyddfa i ddangos y mannau lle na ddylai'r staff fynd pan fo'r peiriant pelydr-X yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom argymell felly y dylid gosod lluniad er mwyn atal damwain ymbelydredd neu gyfyngu ar y tebygolrwydd o un yn digwydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r lluniad o'r man a reolir gael ei arddangos yn glir yn y ddeintyddfa er mwyn dangos y mannau lle na ddylai'r staff fynd pan fo'r peiriant pelydr-X yn cael ei ddefnyddio.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cwblhau amrywiaeth o archwiliadau, gan gynnwys rhai ar gyfer rheoli heintiau, antibiotigau, a radiograffau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd system ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid o'r staff clinigol, a gwnaethom argymell y byddai hyn yn fuddiol gan fod y deintydd yn gweithio ar wahân i ddeintyddion eraill.

Roedd tystiolaeth bod archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal, yn bennaf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac archwiliad o'r antibiotigau. Er

[3] Pan fo peiriant pelydr-X yn rhedeg, mae man a reolir yn bodoli. Man na ddylid mynd ato pan fo'r peiriant pelydr-X yn rhedeg yw man a reolir.

nad yw'r deintydd yn defnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth, mae'n cyfeirio at ddeunydd a gyhoeddir gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bump o gofnodion cleifion y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod rhai problemau a oedd angen sylw, gan gynnwys:

- Mae angen nodiadau manylach o ran hanes cymdeithasol a sgrinio ar gyfer canser oherwydd, yn y cofnodion a adolygwyd gennym, gwnaethom nodi mai ond ychydig o wybodaeth, neu dim o gwbl, oedd yn cael ei chofnodi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i fanylion mwy manwl gael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion o ran hanes cymdeithasol a sgrinio ar gyfer canser.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae'r practis hwn wedi'i hen sefydlu ac yn eiddo i, ac yn cael ei arwain, gan ddeintydd unigol. Dywedodd y tri aelod o staff, y mae pob un ohonynt wedi bod yn gweithio yno ers blynyddoedd lawer, eu bod yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn deall eu cyfrifoldebau. Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y deintydd, gyda chefnogaeth gan reolwr y practis. Roedd tystiolaeth gref mai practis a oedd yn canolbwyntio ar gleifion oedd hwn.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Deintyddfa Paul James wedi bod yn darparu gwasanaethau yn ei hadeilad presennol ers 2000.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd yr holl staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, ac roedd eu perthynas a'u modd o ryngweithio â chleifion yn dyst i hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â'r deintydd, rheolwr y practis, neu gorff priodol pe bai angen.

Roedd y deintydd a'r staff i gyd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel ar gyfer eu cleifion, ac roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau yn ategu hyn. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi arwyddo'r polisïau a gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi'u darllen ac yn deall eu cyfrifoldebau. Gwnaethom argymell bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn nodi eu dyddiad cyhoeddi ac adolygu gan nad oedd y dogfennau a adolygwyd gennym ar adeg yr arolygiad yn cynnwys y wybodaeth hon.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Roedd tystiolaeth o raglen ymsefydlu. Gwelsom fod yr holl staff wedi cael mynediad at amrediad o hyfforddiant, gan fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaeth ein trafodaethau gyda staff gadarnhau nad oedd eu ffeiliau hyfforddiant yn cael eu cadw yn y practis. Gwnaethom argymell bod y practis yn cadw copïau ar y safle o'r tystysgrifau hyfforddiant perthnasol, i ddangos bod y staff yn cydymffurfio ac yn gyfredol o ran eu gofynion hyfforddiant.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Gwnaethom nodi bod rhai o'r cofnodion yn dangos bod angen pigiadau atgyfnerthu. Gwnaethom ofyn i'r staff adolygu hyn a sicrhau bod unrhyw bigiadau yn cael eu gwneud a bod y cofnodion yn cael eu diweddaru i ddangos bod y rhain wedi cael eu gwneud.

Roedd tystiolaeth bod arfarniadau staff wedi cael eu cyflawni. Gwnaethom nodi nad oedd rhai wedi cael eu llofnodi gan y cyflogai a gwnaethom awgrymu y dylai pob cyflogai gadarnhau bod yr hyn a geir yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd staff ffurfiol a chofnodedig ond nid oedd y rhain yn rheolaidd ac nid oedd llawer o dystiolaeth bod y staff yn dysgu o'r cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, oherwydd y tîm staff bach, dywedwyd wrthym fod trafodaethau yn cael eu cynnal bob dydd, a bod y staff yn fodlon eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion ynghylch y ddeintyddfa.

Gwnaethom gadarnhau bod gan y deintydd wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bod yr holl staff (lle bo'n berthnasol) wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif AGIC y deintydd wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau gynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'n rhaid i'r holl staff clinigol sicrhau bod eu brechiadau atgyfnerthol Hepatitis B (lle bo'n briodol) yn cael eu derbyn o fewn yr amserlenni a nodir, a bod cofnodion y practis yn cael eu diweddaru.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf>. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith | | | |
| | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: Insert name

### Dyddiad yr arolygiad: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dim materion sicrwydd dybryd | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Deintyddfa Paul James

### Dyddiad yr arolygiad: 27 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen cyflwyno cyfleusterau ar gyfer gwaredu ar wastraff hylendid benywaidd mewn ffordd hylan. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 | Mae gennym gontract ar waith bellach i waredu ar wastraff hylendid benywaidd mewn ffordd hylan. | Paul James | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen nodi dyddiad gwirioneddol yr archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 i ddangos pryd y cafodd ei gynnal. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5 | Mae archwiliadau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wedi cael eu dyddio'n gywir bellach a bydd holl archwiliadau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 y dyfodol yn cynnwys y dyddiad pan gawsant eu cynnal. | Paul James | Cwblhawyd |
| Mae angen i'r lluniad o'r man a reolir gael ei arddangos yn glir yn y ddeintyddfa er mwyn dangos y mannau lle na ddylai'r staff fynd pan fo'r peiriant pelydr-X yn cael ei ddefnyddio. | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 | Mae lluniad o'r man a reolir bellach yn cael ei arddangos yn glir yn y ddeintyddfa er mwyn dangos y mannau lle na ddylai'r staff fynd pan fo sganiau pelydr-X yn cael eu cymryd. | Paul James | Cwblhawyd |
| Mae angen i fanylion mwy manwl gael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion o ran hanes cymdeithasol a sgrinio ar gyfer canser. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 20 (1) (a) (i) (ii)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal 3.5 | Mae'r holl wybodaeth i gleifion o ran hanes cymdeithasol a sgrinio ar gyfer canser bellach yn cael ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion. Roeddem yn gofyn ar lafar am arferion cymdeithasol cleifion o'r blaen. | Paul James | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau gynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5 | Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau wedi cael eu newid i gynnwys unrhyw ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu a bydd yr holl ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu yn cael eu dogfennu yn y dyfodol. | Paul James | Cwblhawyd |
| Mae'n rhaid i'r holl staff glinigol sicrhau bod eu pigiadau atgyfnerthol Hepatitis B (lle bo'n briodol) yn cael eu derbyn o fewn yr amserlenni a nodir a bod cofnodion y practis yn cael eu diweddaru. | Safonau Iechyd a Gofal 7.1<br>Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086 | Rydym wedi holi'r adran iechyd galwedigaethol yn Ysbyty Dewi Sant ynglŷn â phigiadau atgyfnerthol Hepatitis B ond, oherwydd prinder byd-eang y brechlyn, ni allent roi dyddiad penodol ar gyfer apwyntiad. | Paul James | I'w gwblhau pan fydd y brechlyn ar gael |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Paul James**

**Swydd: Perchennog y Practis**

**Dyddiad: 14/8/2017**